Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 297 (Cy. 74) (C. 9)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021

Gwnaed - - - - 11 Mawrth 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 175(7) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "arolygiad arbennig" ("*special inspection*") yr un ystyr ag yn adran 21(10) o Fesur 2009;

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol" ("*National Park authority*") yw awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

ystyr "Mesur 2009" ("*the 2009 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**2**);

mae i "prif gyngor" ("*principal council*") yr un ystyr ag yn adran 171(1) o Ddeddf 2021;

ystyr "trefniant cydlafurio" ("*collaboration arrangement*") yw unrhyw drefniant, unrhyw drafodiad, neu unrhyw gytundeb arall a wnaed yn unol ag unrhyw un o'r pwerau a restrir yn adran 9(2) o Fesur 2009.

(3) At ddibenion erthyglau 4 a 6, mae arolygiad arbennig yn cychwyn—

(a) ar yr adeg y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hysbysu prif gyngor o dan adran 21(7)(a) o Fesur 2009, neu

(b) mewn achosion pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad yn unol ag adran 21(4) o Fesur 2009, ar yr adeg y gwneir y cais hwnnw.

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2009 mccc 2.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Ebrill 2021, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adrannau 89 i 91;

(b) adrannau 95 i 115;

(c) Pennod 3 o Ran 6;

(d) Rhan 7;

(e) adran 159;

(f) adran 169;

(g) Atodlen 1, ac eithrio'r darpariaethau sydd i ddod i rym ar 6 Mai 2022 yn unol ag adran 175(6)(b) o Ddeddf 2021;

(h) Atodlen 10;

(i) Atodlen 11;

(j) Atodlen 12.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 5 Mai 2022

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 5 Mai 2022—

(a) adrannau 92 a 93;

(b) Pennod 2 o Ran 6.

Arbedion: parhau i gymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas â phrif gynghorau

4.—(1) Er bod adran 113 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b)), nid yw'r diwygiadau a wnaed gan y ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith (ac mae Mesur 2009 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai adran 113 wedi dod i rym) mewn perthynas ag—

(a) trefniant cydlafurio yr ymrwymwyd iddo, neu y cytunwyd iddo, cyn 1 Ebrill 2021, pan fo o leiaf un o'r partïon yn brif gyngor;

(b) dyletswydd prif gyngor i wneud trefniadau yn unol ag adran 15 o Fesur 2009 ar gyfer cyhoeddi—

(i) yr wybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (2) o'r adran honno i'r graddau y mae'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(ii) crynodeb o unrhyw adroddiad y cyfeirir ato yn is-adran (4) o'r adran honno mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o'r awdurdod a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021 (pa un a ddyroddwyd yr adroddiad cyn y dyddiad hwnnw ai peidio);

(c) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliad o dan adran 17 o Fesur 2009 at ddiben penderfynu a yw prif gyngor, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (5) o Fesur 2009, ac i ba raddau y mae'r awdurdod, yn ystod y flwyddyn honno, wedi gweithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);

(d) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddyroddi, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, adroddiad neu adroddiadau o dan adran 19(1) o Fesur 2009 mewn cysylltiad â phob prif gyngor—

(i) sy'n ardystio, yn unol ag is-adran (1)(a) o'r adran honno, bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(ii) sy'n datgan, yn unol ag is-adran (1)(b) o'r adran honno, a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, yn credu—

(aa) bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (5) o Fesur 2009, a

(bb) bod yr awdurdod wedi gweithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);

(iii) sy'n argymell, os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol yng ngoleuni'r archwiliad hwnnw, unrhyw un neu ragor o'r materion a nodir yn adran 19(1)(f), (g) neu (h)(**3**) o Fesur 2009;

(e) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i anfon copi o adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d) yn unol ag adran 19(2) a (3) o Fesur 2009 ac unrhyw orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (3)(b) o'r adran honno;

(f) pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd o dan adran 19(4) o Fesur 2009 mewn perthynas ag adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d);

(g) dyletswydd prif gyngor i ymateb i adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d) yn unol ag adran 20(1) i (3) a (5) o Fesur 2009 (ac mae is-adran (6) o'r adran honno yn parhau i gael effaith at y dibenion hynny);

(h) pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 21 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o brif gyngor a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021;

(i) pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddyroddi, cyhoeddi, ac anfon copïau o adroddiad o dan adran 22 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o brif gyngor a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, yn unol ag is-adrannau (2), (3) a (5) o'r adran honno;

(j) graddfeydd ffioedd a ragnodir gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag—

(i) arolygiad arbennig o brif gyngor a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(ii) archwiliad o brif gyngor a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(k) pwerau a dyletswyddau prif gyngor a Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27(3), (4) a (4A) mewn cysylltiad ag—

(i) arolygiad arbennig o brif gyngor a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(ii) archwiliad o brif gyngor a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(l) unrhyw gymorth neu gynhorthwy a ddarperir i brif gyngor o dan adran 28 o Fesur 2009 ar 1 Ebrill 2021, ac mae adran 28 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw gymorth neu gynhorthwy o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021;

(m) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i brif gyngor o dan adran 29 o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021, ac mae adran 29 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021;

(n) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i brif gyngor o dan adran 30 o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021, ac mae adran 30 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021.

(2) Er bod adran 113 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b)), mae'r diffiniad o "pwerau cydlafurio" sydd wedi ei gynnwys yn adran 11 o Fesur 2009 yn parhau i gael effaith at ddiben erthygl 4(1)(b), fel pe na bai adran 113 wedi dod i rym.

(**3**) Ond nid yw adrannau 21, 28, a 29 o Fesur 2009 wedi eu harbed at y dibenion hynny.

Arbedion: rhannu gwybodaeth

5.—(1) Er bod adran 113 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b)), mae adrannau 33 a 34 o Fesur 2009 yn parhau i gael effaith, fel pe na bai adran 113 wedi dod i rym, at ddiben rhannu gwybodaeth a dogfennau—

(a) a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu a ddangoswyd iddo wrth arfer swyddogaethau o dan adrannau 17 a 19 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020, neu

(b) at ddiben arfer gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y swyddogaethau hynny mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol honno.

(2) At y diben a ddisgrifir ym mharagraff (1), mae'r darpariaethau a ganlyn yn parhau i gael effaith fel pe na bai adran 113 o Ddeddf 2021 wedi dod i rym—

(a) y diffiniadau o "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol" sydd wedi eu cynnwys yn adran 16 o Fesur 2009;

(b) swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a grybwyllir yn adran 23(7)(b) o Fesur 2009.

Arbedion: parhau i gymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol

6.—(1) Er bod adran 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(f)), nid yw'r diwygiadau a wnaed gan y ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith (ac mae Mesur 2009 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai adran 169 wedi dod i rym) mewn perthynas ag—

(a) trefniant cydlafurio yr ymrwymwyd iddo, neu y cytunwyd iddo, cyn 1 Ebrill 2021, pan fo o leiaf un o'r partïon yn awdurdod Parc Cenedlaethol;

(b) dyletswydd awdurdod Parc Cenedlaethol i wneud trefniadau yn unol ag adran 15 o Fesur 2009 ar gyfer cyhoeddi—

(i) yr wybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (2) o'r adran honno i'r graddau y mae'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(ii) crynodeb o unrhyw adroddiad y cyfeirir ato yn is-adran (4) o'r adran honno mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o'r awdurdod a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021 (pa un a gyhoeddwyd yr adroddiad cyn y dyddiad hwnnw ai peidio);

(c) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliad o dan adran 17 o Fesur 2009 at ddiben penderfynu a yw awdurdod Parc Cenedlaethol, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (5) o Fesur 2009, ac i ba raddau y mae'r awdurdod wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn honno yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);

(d) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddyroddi, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, adroddiad neu adroddiadau o dan adran 19(1) o Fesur 2009 mewn cysylltiad â phob awdurdod Parc Cenedlaethol—

(i) sy'n ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol, yn unol ag is-adran (1)(a) o'r adran honno, wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(ii) sy'n datgan, yn unol ag is-adran (1)(b) o'r adran honno, a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, yn credu—

(aa) bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (5) o Fesur 2009, a

(bb) bod yr awdurdod wedi gweithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);

(iii) sy'n argymell, os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol yng ngoleuni'r archwiliad hwnnw, unrhyw un neu ragor o'r materion a nodir yn adran 19(1)(f), (g) neu (h)(**4**) o Fesur 2009;

(e) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i anfon copi o adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d) yn unol ag adran 19(2) a (3) o Fesur 2009 ac unrhyw orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (3)(b) o'r adran honno;

(f) pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd o dan adran 19(4) o Fesur 2009 mewn perthynas ag adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d);

(g) dyletswydd awdurdod Parc Cenedlaethol i ymateb i adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d) yn unol ag adran 20(1) i (3) a (5) o Fesur 2009 (ac mae is-adran (6) o'r adran honno yn parhau i gael effaith at y dibenion hynny);

(h) pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 21 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021;

(i) pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddyroddi, cyhoeddi, ac anfon copïau o adroddiad o dan adran 22 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, yn unol ag is-adrannau (2) a (3) o'r adran honno;

(j) graddfeydd ffioedd a ragnodir gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag—

(i) arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(ii) archwiliad o awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(k) pwerau a dyletswyddau awdurdod Parc Cenedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27(3), (4) a (4A) mewn cysylltiad â—

(i) arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(ii) archwiliad o awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(l) unrhyw gymorth neu gynhorthwy a ddarperir i awdurdod Parc Cenedlaethol o dan adran 28 o Fesur 2009 ar 1 Ebrill 2021, ac mae adran 28 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw gymorth neu gynhorthwy o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021;

(m) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i awdurdod Parc Cenedlaethol o dan adran 29 o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021, ac mae adran 29 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021;

(n) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i awdurdod Parc Cenedlaethol o dan adran 30 o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021, ac mae adran 30 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021.

(2) Er bod adran 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(f)), mae'r diffiniad o "pwerau cydlafurio" sydd wedi ei gynnwys yn adran 11 o Fesur 2009 yn parhau i gael effaith at ddiben erthygl 6(1)(b), fel pe na bai adran 169 wedi dod i rym.

(**4**) Ond nid yw adrannau 21, 28, a 29 o Fesur 2009 wedi eu harbed at y dibenion hynny.

Arbedion: pwerau a dyletswyddau arolygwyr

7. Er bod adrannau 113 a 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b) ac (f)), mae adran 26 o Fesur 2009 yn parhau i gael effaith, fel pe na bai adrannau 113 a 169 wedi dod i rym, at ddiben—

(a) arolygiad arbennig o brif gyngor neu awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(b) archwiliad o brif gyngor neu awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Arbedion: canllawiau

8. Er bod adrannau 113 a 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b) ac (f))—

(a) rhaid i brif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8) o Fesur 2009 wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 15 i wneud trefniadau i gyhoeddi'r wybodaeth a ddisgrifir yn erthyglau 4(1)(b) a 6(1)(b);

(b) rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru barhau i roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 21(9) o Fesur 2009 wrth gynnal arolygiad arbennig a ddisgrifir yn erthyglau 4(1)(h) a 6(1)(h).

Arbedion: achos troseddol

9. Nid yw'r ffaith bod adrannau 113 a 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b) ac (f)) yn cael unrhyw effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd, neu yr honnir iddi gael ei chyflawni, o dan adran 26(9) o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021.

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Ebrill 2021, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adrannau 89 i 91 a 95 i 115 (perfformiad prif gynghorau), gan gynnwys Atodlen 10 (diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â phwyllgorau llywodraethu ac archwilio);

(b) Pennod 3 o Ran 6 (cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr);

(c) Rhan 7 (uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd), gan gynnwys Atodlen 1 (adolygiad cychwynnol o'r trefniadau etholiadol), ac eithrio'r darpariaethau sydd i ddod i rym ar 6 Mai 2022 yn unol ag adran 175(6)(b) o Ddeddf 2021, Atodlen 11 (pwyllgorau pontio cynghorau sy'n uno a chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro) ac Atodlen 12 (cyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio etc. gan gynghorau sy'n uno a chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro);

(d) adran 159 (rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru);

(e) adran 169 (datgymhwyso Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol).

Mae erthygl 3 yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 5 Mai 2022—

(a) adrannau 92 a 93 (asesiadau panel o berfformiad);

(b) Pennod 2 o Ran 6 (aelodaeth a thrafodion pwyllgorau llywodraethu ac archwilio).

Mae erthyglau 4 i 9 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud â chychwyn adrannau 113 (datgymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas â phrif gynghorau) a 169 o Ddeddf 2021.

Mae erthygl 4 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud â datgymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas â phrif gynghorau, fel bod arfer swyddogaethau penodol a phethau eraill a wneir o dan Fesur 2009 yn parhau i gael effaith yn dilyn cychwyn adran 113 o Ddeddf 2021.

Mae erthygl 5 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud ag adrannau 33 (rhannu gwybodaeth) a 34 (y modd y mae gwybodaeth i'w defnyddio gan reoleiddwyr) o Fesur 2009.

Mae erthygl 6 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud â datgymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol, fel bod arfer swyddogaethau penodol a phethau eraill a wneir o dan Fesur 2009 yn parhau i gael effaith yn dilyn cychwyn adran 169 o Ddeddf 2021.

Mae erthygl 7 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud ag adran 26 (pwerau a dyletswyddau arolygwyr) o Fesur 2009.

Mae erthygl 8 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud â chanllawiau a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 15(8) (cyhoeddi gwybodaeth am welliannau) a 21(9) (arolygiadau arbennig) o Fesur 2009.

Mae erthygl 9 yn darparu nad yw cychwyn adrannau 113 a 169 o Ddeddf 2021 yn cael unrhyw effaith mewn perthynas â throsedd a gyflawnir o dan adran 26(9) (pan fo person, heb esgus rhesymol, yn atal unrhyw bŵer arolygydd rhag cael ei arfer neu'n methu â chydymffurfio â gofyniad gan arolygydd) cyn 1 Ebrill 2021.

NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 24	1 Tachwedd 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 25	1 Tachwedd 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 26	1 Tachwedd 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 27	1 Tachwedd 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 28	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 29	1 Tachwedd 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 30(3)	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 30 (y gweddill)	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 31	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 32	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 33	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 34	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 35	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 36	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 37	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 39	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 40	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 41	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 42	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 43	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 44	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 45	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adrannau 46(1)(b) ac (c), (2)(b), (3), (4), ac (8) i (10) (yn rhannol)	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 46 (y gweddill)	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 47(8)	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 48	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 52	1 Ebrill 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 54	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 56	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 57	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 58	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 59	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 62	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 63	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 65	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 66	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 67	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 161(1)	4 Mawrth 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 161 (y gweddill)	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 162	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 163	1 Ebrill 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Adran 164	1 Ebrill 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Rhan 1 o Atodlen 3	1 Tachwedd 2021	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Rhan 2 o Atodlen 3	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Atodlen 5	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Atodlen 6 (yn rhannol)	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Atodlen 7	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)
Atodlen 13	5 Mai 2022	2021/231 (Cy. 57) (C. 6)

Gweler adran 175(1) o Ddeddf 2021 ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym drannoeth y diwrnod y cafodd Deddf 2021 y Cydsyniad Brenhinol. Gweler adran 175(3) ar gyfer darpariaethau a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i Ddeddf 2021 gael y Cydsyniad Brenhinol. Cafodd Deddf 2021 y Cydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Gweler hefyd adran 175(4) o Ddeddf 2021 ar gyfer darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021.